# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 14(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cylchffordd Cymru

(30 munud)

## 4 Cynnig i newid enw'r Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn

(5 munud)

**NDM6076** Elin Jones (Ceredigion)

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3:

Yn cytuno y caiff y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn, a sefydlwyd ar 28 Mehefin 2016, ei ailenwi'n Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

## 5 Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

(5 munud)

NDM6078 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol David J Rowlands (UKIP Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Mark Reckless (UKIP Cymru).

NDM6079 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Michelle Brown (UKIP Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Mark Reckless (UKIP Cymru).

NDM6081 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Nathan Gill (UKIP Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth wrth Gefn yn lle Michelle Brown (UKIP Cymru).

## 6 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

NDM6027

Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Lee Waters (Llanelli)

Russell George (Sir Drefaldwyn)

Jeremy Miles (Castell-nedd)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod y swm o arian a gaiff ei wario gan y BBC ar raglenni Saesneg ar gyfer Cymru wedi disgyn 25 y cant yn y degawd diwethaf.

2. Yn credu bod gan BBC Cymru ran hanfodol i'w chwarae o ran adlewyrchu bywydau, uchelgeisiau a heriau pobl Cymru.

3. Yn nodi cyfaddefiad yr Arglwydd Hall bod y cyllid ar gyfer cynnwys Saesneg a gaiff ei wneud yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru wedi gostwng i lefelau anghynaliadwy, ac felly'n galw ar y BBC i amlinellu'n fanwl beth yw ei ymrwymiadau gwario o ran Cymru yn y dyfodol agos a'r dyfodol pellach.

## 7 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6077** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r addewidion a wnaed i bobl Cymru gan y rhai a oedd yn ymgyrchu i'r DU dynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd.

2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod yr addewidion hynny yn cael eu cyflawni ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys:

a) bod £490 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol yn cael ei roi i GIG Cymru;

b) y caiff lefel y cyllid a gaiff Cymru o raglenni'r UE ar hyn o bryd ei chynnal;

c) y bydd y cymorth taliadau uniongyrchol a gaiff ffermwyr Cymru yn gyfartal, os nad yn uwch na'r hyn a ddaw drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; a

d) bod hawl dinasyddion yr UE adeg Brexit i aros yn y DU heb ofn na rhwystr, yn cael ei warantu.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

bod yr holl drefniadau cyllido yn y cyfnod wedi Brexit yn cael eu seilio ar fframwaith cyllido teg ac ar ddiwygio Fformiwla Barnett yn sylweddol.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6075** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi can mlynedd ers Brwydrau'r Somme, Coed Mametz a Jutland.

2. Yn rhoi teyrnged i'r rhai a ymladdodd yn y brwydrau hyn a brwydrau eraill yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

3. Yn anrhydeddu'r cof am y rhai a gollodd eu bywydau a'r rhai a anafwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a gwrthdrawiadau arfog eraill.

4. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi mwy o gefnogaeth i luoedd arfog a chymuned y cyn-filwyr yng Nghymru yn ystod y Pumed Cynulliad, gan gynnwys drwy:

a) sefydlu Comisiynydd y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr, i flaenoriaethu eu hanghenion penodol hwy;

b) cyflwyno Cynllun Cerdyn Cyn-filwyr i ymestyn breintiau i gyn-aelodau'r lluoedd;

c) rhoi rhagor o gyllid i wasanaeth Cyn-filwyr GIG Cymru, i wella ei gapasiti a gwella ei allu i gynorthwyo cyn-filwyr sydd mewn angen; a

d) gwella prosesau casglu data er mwyn: sefydlu beth yw anghenion iechyd cyn-filwyr; canfod y cymorth sydd ei angen ar eu teuluoedd a'u gofalwyr; llywio darpariaeth gwasanaethau a chomisiynu; a thynnu sylw at yr ymgysylltu sydd ei angen â phobl yn y lluoedd arfog, sy'n gwasanaethu a / neu wrth iddynt drosglwyddo i fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 4 dileu "bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi mwy o gefnogaeth i luoedd arfog a chymuned y cyn-filwyr yng Nghymru yn ystod y Pumed Cynulliad, gan gynnwys drwy" ac yn ei le rhoi "y dylai Llywodraeth Cymru ystyried".

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6074** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Diwallu anghenion tai Cymru: Angen rhagor o gamau i gynyddu'r cyflenwad tai.

## 11 Dadl Fer – gohiriwyd o 6 Gorffennaf

(30 munud)

**NDM6059** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Mae angen ein hundebau arnom fwy nag erioed

Edrych ar waith yr undebau yng Nghymru o ran mynd i'r afael â llymder ac annog mwy o aelodaeth a chefnogaeth i undebau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Medi 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Gorffennaf 2016 i'w hateb ar 13 Gorffennaf 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cysylltiad â Cymru Greadigol? OAQ(5)0035(EI)

**2.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cymorth ariannol sydd ar gael i brosiectau twristiaeth yng nghanolbarth Cymru? OAQ(5)0027(EI)

**3.** Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â busnesau bach a chanolig brodorol? OAQ(5)0034(EI)

**4.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut mae Llywodraeth Cymru yn annog datblygu economaidd yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0023(EI)

**5.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithgynhyrchu? OAQ(5)0029(EI)

**6.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniad yr anghydfod diwydiannol rhwng PCS ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru? OAQ(5)0030(EI)

**7.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfleoedd y gallai Bil Cymru eu cynnig ar gyfer integreiddio systemau trafnidiaeth gyhoeddus yng nghymoedd de-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0033(EI)

**8.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i ddenu ymwelwyr i Gymru? OAQ(5)0028(EI)

**9.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar brosiectau isadeiledd yn ardal Bae Abertawe? OAQ(5)0026(EI)**W**

**10.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0022(EI)

**11.** Nathan Gill (Gogledd Cymru): Pa drefniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i fanteisio'n llawn ar y cysylltiadau rhwng Gogledd Cymru a phwerdu arfaethedig y gogledd? OAQ(5)0021(EI)

**12.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol diwydiant trwm yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0025(EI)**W**

**13.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd y dull dinas-ranbarth o fudd i ardaloedd gwledig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0031(EI)

**14.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gyflwyno band eang yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0024(EI)

**15.** Neil McEvoy (Canol De Cymru): Sut y mae'r Gweinidog yn asesu effeithiolrwydd cymorth busnes Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0031(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru? OAQ(5)0027(HWS)

**2.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unedau Brys a Damweiniau yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0022(HWS)**W**

**3.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau GIG yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0020(HWS)

**4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(5)0019(HWS)

**5.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau pediatrig yng ngorllewin Cymru? OAQ(5)0034(HWS)

**6.** Sian Gwenllian (Arfon): Beth yw strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddi meddygon yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0026(HWS)**W**

**7.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chleifion yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0021(HWS)

**8.** Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio meddygon? OAQ(5)0029(HWS)

**9.** David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog nodi pa ddarpariaeth gofal iechyd y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi drwy'r GIG i gefnogi unigolion sydd yn y ddalfa? OAQ(5)0032(HWS)

**10.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ehangu mynediad i gyfleusterau chwaraeon? OAQ(5)0024(HWS)

**11.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ragnodi ar gyfer clefyd Coeliac? OAQ(5)0025(HWS)**W**

**12.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau ar gyfer deddfwriaeth yn ystod y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0023(HWS)

**13.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gyfle y mae'r Gweinidog wedi'i gael i gwrdd ag aelodau Hemoffilia Cymru? OAQ(5)0035(HWS)

**14.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi mentrau i gynyddu nifer y menywod a merched sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon? OAQ(5)0028(HWS)

**15.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynlluniau sy'n cael eu rhoi yn eu lle i baratoi ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym? OAQ(5)0033(HWS)